

The
Fostering
Network
Y
Rhwydwaith
Maethu

Siarter Gofalwyr Maeth



Rolau ac ymrwymiad

Mae siarter y gofalwyr maeth yn cynrychioli ymrwymiad ar ran yr awdurdod sy'n lleoli yn ei rôl fel y rhiant corfforaethol, y gwasanaeth maethu a'r gofalwr maeth i weithio mewn partneriaeth er budd gorau'r plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae'n addewid, sy'n eiddo i bawb sy'n gysylltiedig, i gyflawni arferion gorau bob amser.

Rôl y rhiant corfforaethol

Rôl y rhiant corfforaethol wrth leoli a chynorthwyo plant mewn cartref maeth yw:

- gweithredu er eu budd gorau, a hyrwyddo'u hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol
- eu hannog i fynegi'u barn, eu dymuniadau a'u teimladau ac i roi ystyriaeth iddynt
- eu helpu i gael mynediad at, ac i ddefnyddio yn y modd gorau, wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleoli a'i bartneriaid perthnasol
- hyrwyddo dyheadau uchel, a cheisio sicrhau'r deilliannau gorau iddynt
- sicrhau eu bod yn ddiogel, a bod yna sefydlogrwydd yn eu bywydau gartref, yn eu perthnasoedd a'u haddysg neu'u gwaith
- eu paratoi ar gyfer bod yn oedolion ac i fyw'n annibynnol.

Rôl y gwasanaeth maethu

Nod y gwasanaeth maethu yw darparu gofal maeth sefydlog a diguro i blant a gaiff eu gwerthfawrogi, eu cynorthwyo a'u hannog i dyfu ac i ddatblygu fel unigolion. I gyflawni'r nod hwn, mae'r gwasanaeth yn recriwtio, yn hyfforddi ac yn cymeradwyo gofalwyr maeth ac yn cyflenwi cymorth parhaus iddynt, er mwyn rhoi'r sgiliau a'r hyder iddynt y mae arnynt eu hangen i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon â'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt. Yn y modd hwn, mae'r gwasanaeth yn darparu cartrefi sefydlog a llawn cariad tra bydd y plant yn rhan o'r teulu maeth.

Rôl y gofalwr maeth

Mae gofalwyr maeth yn gofalu am blant drwy ddatblygu perthnasoedd ystyrlon mewn amgylchedd teuluol diogel ac sy'n eu meithrin. Mae'r sefydlogrwydd, y gofal a'r cariad a ddarperir gan ofalwyr maeth yn helpu'r plentyn i gyflawni adferiad ac iachâd oddi wrth drawma'r gorffennol, ac mae'n hyrwyddo gwytnwch er mwyn i'r plentyn wireddu'i botensial llawn.

Dylai perthnasoedd gofalwr maeth ag aelodau eraill o'r tîm o amgylch y plentyn fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch tuag at y naill a'r llall.

Mae'r siarter hon yn egluro'r hyn y gall bob ochr ei ddisgwyl oddi wrth y naill a'r llall.

Yr hyn y gall gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu ei ddisgwyl oddi wrth y rhiant corfforaethol

1. Gweithio mewn partneriaeth a gwerthfawrogi perthnasoedd

Deallwn fod yn rhaid inni ddarparu'r cyfle gorau posibl i ofalwyr maeth roi cartref sy'n llawn cariad ac yn sefydlog i'r plant yn ein gofal, a galluogi'r plant hynny i fwynhau profiad cadarnhaol, sy'n meithrin, o fywyd teuluol – profiad nad yw'n eu gwahanu oddi wrth eu cymheiriaid.

Mae'n rhaid inni:

- trin gofalwyr maeth fel arbenigwyr ar y plentyn, a'u cynnwys ym mhob cyfarfod perthnasol pan fo cynllunio a gwneud penderfyniadau yn effeithio arny'n nhw neu ar y plant y maent yn gofalu amdanynt
- trin gofalwyr maeth heb gamwahaniaethu, a'u parchu fel cydweithwyr
- gwerthfawrogi sgiliau ac arbenigedd gofalwyr maeth yn gydradd â sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill
- gwreiddio'r [Egwyddorion Cadw Cysylltiad](#) mewn ymarfer er mwyn cynorthwyo plant i barhau mewn cysylltiad â chyn-deuluoedd maeth pan fo hynny er lles gorau'r plentyn
- parchu cyfrinachedd.

2. Gwybodaeth

Gwyddom fod gwybodaeth yn hanfodol er mwyn i ofalwyr maeth ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion y plentyn.

Mae'n rhaid inni:

- rhannu â'r gwasanaeth maethu a/neu â'r gofalwr maeth yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gofalu'n ddiogel am y plentyn ac i gynorthwyo'r plentyn i wireddu'i botensial
- darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig cyn y lleoliad, neu cyn gynted ag y bo modd lle y bo lleoliadau brys
- trefnu cynlluniau eglur ac amserol ar gyfer gofal y plentyn.

3. Eglurder ynglŷn â phenderfyniadau

Cydnabyddwn fod yn rhaid i ofalwyr maeth, er mwyn i blant fyw bywyd teuluol llawn, allu gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

Mae'n rhaid inni:

- sicrhau bod gofalwyr maeth yn gallu gwneud penderfyniadau beunyddiol sy'n golygu na chaiff eu plentyn maeth ei drin yn wahanol i'w cymheiriaid a'i fod yn gallu teimlo'n rhan o'u teulu
- darparu eglurder yn y dechrau un am unrhyw benderfyniad na all gofalwyr maeth ei wneud, fel bod pawb yn deall yn llwyr eu priod gyfrifoldebau
- ymdrin yn gyflym ag unrhyw geisiadau i wneud penderfyniadau ynglŷn â materion sydd y tu hwnt i awdurdod y gofalwr maeth.

4. Cyfathrebu ac ymgynghori

Credwn mai deialog agored a didwyll yw'r allwedd i berthynas dda.

Mae'n rhaid inni:

- hwyluso cyfathrebu rhwng gofalwyr maeth a llunwyr penderfyniadau
- darparu'r cyfle i ofalwyr maeth ddylanwadu ar bolisiau a gweithdrefnau perthnasol.

Yr hyn y gall gofalwyr maeth ei ddisgwyl oddi wrth y gwasanaeth maethu

1. Gweithio mewn partneriaeth

Cydnabyddwn fod gan ofalwyr maeth sgiliau ac arbenigedd ac y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau beunyddiol plant mewn gofal.

Mae'n rhaid inni:

- gwerthfawrogi sgiliau ac arbenigedd gofalwyr maeth yn gydradd â sgiliau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill
- cydnabod mai gofalwyr maeth yw'r bobl sy'n byw â phlant bob diwrnod ac sydd fel arfer yn eu hadnabod orau
- cynnwys gofalwyr maeth ym mhob cyfarfod sy'n effeithio arny'n nhw a'r plant y maent yn gofalu amdanynt
- sicrhau y bydd ein gwasanaeth maethu yn cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau maethu
- trin gofalwyr maeth heb gamwahaniaethu, a'u parchu fel cydweithwyr
- parchu cyfrinachedd.

2. Gwybodaeth

Gwyddom fod gwybodaeth yn hanfodol er mwyn i ofalwyr maeth ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion y plentyn.

Mae'n rhaid inni:

- rhannu'r holl wybodaeth sydd gennym am y plentyn er mwyn gofalu'n ddiogel amdanynt
- darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig cyn y lleoliad, neu cyn gynted ag y bo modd lle y bo lleoliadau brys
- darparu gwybodaeth i ofalwyr maeth am bob mater ariannol, yn cynnwys treth, lwfansau a hawlogaethau ychwanegol
- darparu manylion llawn i ofalwyr maeth am yr holl bolisiau a gweithdrefnau perthnasol.

3. Cefnogaeth

Cydnabyddwn y gall maethu fod yn orchwyl ynysig a heriol, a bod cefnogaeth briodol ac amserol yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r teulu sy'n maethu ac i'r plant yn eu gofal.

Mae'n rhaid inni:

- sicrhau bod yna broses sefydlu ar ôl cymeradwyo sy'n broses gadarn
- ymateb yn gadarnhaol i geisiadau am gefnogaeth ychwanegol, yn cynnwys cymorth seibiant/egwyl fer a chymorth y tu allan i oriau arferol swyddfa
- darparu goruchwyliaeth a chysylltiad rheolaidd ar y ffôn i ofalwyr maeth
- rhoi adborth didwyll ac agored i ofalwyr maeth
- darparu modd i ofalwyr maeth o gael at gefnogaeth 24 awr y dydd gan bobl ag arbenigedd mewn maethu
- talu lwfansau, treuliau a ffioedd gofalwyr maeth mewn modd amserol
- sicrhau bod yna grŵp lleol, a gydnabyddir gan y gwasanaeth maethu, lle y gall gofalwyr maeth a'u teulu ganfod cefnogaeth a rhannu profiadau â theuluoedd eraill sy'n maethu
- cynorthwyo gofalwyr maeth wrth hwyluso cysylltiad â theuluoedd biolegol

- dilyn yr [Egwyddorion Cadw Cysylltiad](#) i gynorthwyo gofalwyr maeth i gynnal cysylltiad ar ôl i blentyn symud ymlaen, os yw hynny er lles gorau'r plentyn
- cydnabod a hyrwyddo'r cyfraniad a wna gofalwyr maeth a'u teuluoedd tuag at faethu.

4. Dysgu a datblygu

Credwn fod yn rhaid i ofalwyr maeth gael cyfleoedd i ddysgu a datblygu drwy gydol eu gyrfa faethu. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen, a bydd yn caniatáu iddynt ddatblygu'u hymarfer fel eu bod yn gallu helpu i weddnewid bywydau'r plant y maent yn eu maethu.

Mae'n rhaid inni:

- sicrhau bod gan bob gofalwr maeth gynllun hyfforddi blynyddol unigol
- darparu hyfforddiant priodol, hygyrch a pherthnasol i ofalwyr maeth a'u teulu gan hyfforddwyr sy'n deall maethu
- cynorthwyo gofalwyr maeth i ddatblygu perthnasoedd ystyrlon â'r plant yn eu gofal a chyda'r aelodau eraill yn y tîm o amgylch y plentyn
- parhau i ddarparu cyfleoedd eraill i ddatblygu i bob gofalwr maeth sy'n gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u harbenigedd, megis mentora neu ddarparu hyfforddiant neu gymorth.

5. Triniaeth deg

Cydnabyddwn fod gan ofalwyr maeth hawl i gael eu trin yn deg, ni waeth beth fo'r amgylchiadau.

Mae'n rhaid inni:

- ymgynghori â gofalwyr maeth cyn newid telerau ac amodau
- sicrhau onestrwydd a didwylledd yn ein holl drafodaethau a chyfathrebiadau â gofalwyr maeth
- darparu fframwaith ar gyfer ymdrin â honiadau, yn cynnwys modd o gael at gymorth annibynnol, a chadw at amserlenni y cytunwyd arnynt
- sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu trin â pharch, y cânt eu hysbysu'n rheolaidd, a'u bod yn derbyn cymorth emosiynol petaent yn destun honiad
- sicrhau bod gofalwyr maeth yn gwybod y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a lwfansau pe na baent yn gallu maethu tra eu bod yn destun honiad.

6. Cyfathrebu ac ymgynghori

Credwn mai deialog agored a didwylly yw'r allwedd i berthynas dda.

Mae'n rhaid inni:

- sicrhau ein bod yn ymgynghori â gofalwyr maeth mewn ffordd ystyrlon ynglŷn â materion sy'n effeithio arnynt
- rhoi adborth amserol i ofalwyr maeth o ymgynghoriadau
- darparu gwybodaeth eglur am sut y gall gofalwyr maeth roi adborth inni a rhoi gwybod inni am bryderon.

Yr hyn y gall gwasanaethau maethu ei ddisgwyl oddi wrth ofalwyr maeth

1. Gweithio mewn partneriaeth

Mae'n rhaid inni ddangos safon gofal ac ymddygiad uchel. Credwn mai deialog agored a didwyll yw'r allwedd i berthynas dda, a'n nod fydd magu perthynas ystyrlon a chydweithredol â'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Mae'n rhaid inni:

- dangos ein harbenigedd a gwneud defnydd o'n sgiliau hyd eithaf ein gallu
- darparu profiad cadarnhaol o fywyd teuluol i blant
- mynychu cyfarfodydd ynglŷn â'r plant a'r bobl ifanc y gofalwn amdanynt
- gweithio â'r unigolion a'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r plentyn, megis gweithiwr cymdeithasol y plentyn, gwasanaeth maethu, ysgol, a chyrrff iechyd a chrefyddol
- gweithio â rhieni biolegol, y teulu ehangach ac unrhyw bobl arwyddocaol eraill ym mywyd plentyn
- bodloni'r safonau a amlinellir mewn rheoliadau a chanllawiau maethu, a dilyn polisïau a gweithdrefnau
- hysbysu'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol am ffactorau sy'n effeithio ar ein gorchwyl maethu, yn cynnwys newidiadau ar ein haelwyd
- hysbysu'n gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol am unrhyw anawsterau sy'n codi inni
- hysbysu gweithiwr cymdeithasol y plentyn am unrhyw bryderon sydd gennym yn ymwneud â'r plentyn
- parchu cyfrinachedd
- cynnal deialog agored â'r gwasanaeth maethu.

2. Parch tuag at y plentyn

Dylid parchu pob plentyn a pherson ifanc fel unigolyn, a dylid eu cynorthwyo i ddiwallu'u hanghenion ac i gyflawni'u dyheadau a'u potensial.

Mae'n rhaid inni:

- datblygu perthnasoedd ystyrlon â'r plentyn – deall eu hanghenion, cynorthwyo'u twf, dod yn eiriolwr ac yn hyrwyddwr drostynt, a chynnal perthnasoedd â nhw pan maent yn symud ymlaen pan fo hynny er lles gorau'r plentyn
- gofalu am y plentyn mewn modd sy'n cydnabod ac yn parchu'i hunaniaeth – yn cynnwys ei dreftadaeth ethnig, grefyddol, ieithyddol a diwylliannol
- rhoi'r un lefel o amddiffyniad a gofal i blentyn ag y byddem i'n plentyn ein hunain
- cynorthwyo'r plentyn i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i fywyd ei hun, fel sy'n briodol i'w oed, ei ddealltwriaeth a'i allu
- cynorthwyo'r plentyn i hysbysu datblygiad y gwasanaethau sy'n effeithio ar ei ofal; fel sy'n briodol i'w oed, ei ddealltwriaeth a'i allu.

3. Dysgu, datblygu a chymorth

Mae'n rhaid inni gael at gyfleoedd dysgu a datblygu drwy gydol ein gyrfa faethu, yn unol ag anghenion y plant rydym yn gofalu amdanynt. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnom eu hangen, a bydd yn caniatáu inni ddatblygu'n hymarfer fel ein bod yn gallu helpu i weddnewid bywydau'r plant rydym yn eu maethu.

Mae'n rhaid inni:

- bod yn fodlon ac yn alluog i ddatblygu'n sgiliau drwy gydol ein gyrfa faethu
- mynychu hyfforddiant perthnasol
- bod yn fodlon mynychu a chyfrannu tuag at grwpiau cymorth.



Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, a ddaw â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant maeth. Rydym yn cynorthwyo gofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant, ac rydym yn gweithio â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu a rhannu ymarfer gorau.

Rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc maeth yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol ynglŷn â'r gwahaniaeth a wna gofal maeth. Rydym yn hyrwyddo maethu ac yn ceisio creu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.

thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet



@thefosteringnetwork

Swyddfa gofrestredig: 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA.

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 280852 ac yn yr Alban SC039338

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig rhif 1507277

Rhif cofrestru ar gyfer TAW: 231 6335 90